**FIN(4) 05-13 Papur 1**

**Y PWYLLGOR CYLLID - YMCHWILIAD I REOLI ASEDAU**

**Tystiolaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Cyflwyniad a Chwmpas**

1. Mae'r papur hwn yn darparu tystiolaeth i lywio ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i reoli asedau.

2. O safbwynt ei gwmpas, cyfyngir y canolbwynt i ystyriaeth o bortffolio asedau'r GIG. Mae'n werth pwysleisio bod yr asedau hyn o dan berchnogaeth cyrff unigol y GIG ac nad ydynt yn rhan o ystad Llywodraeth Cymru.

3. Deellir bod y Pwyllgor Cyllid, wrth alw am dystiolaeth ym mis Tachwedd 2012, wedi cynnwys y saith bwrdd iechyd lleol (BILl) a'r tair ymddiriedolaeth fel ymgynghoreion. Mae'r papur hwn felly yn ystyried safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â hyrwyddo, arwain a chefnogi rheoli effeithiol ar asedau yn y GIG.

**Asedau'r GIG**

4. Mae Gwasanaethau'r GIG yn cael eu cyflenwi o bortffolio o eiddo amrywiol, cymhleth ac eang yn ddaearyddol. Mae Cyfrif Cryno 2011-12 ar gyfer GIG Cymru'n dangos mai gwerth cyfanswm yr Asedau Cyfalaf heb fod yn Gyfredol yw £2.9 biliwn. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys unrhyw asedau a ddelir i'w gwerthu ac mae'n cynnwys:

- Cyfanswm arwynebedd tir o bron 700 hectar;
- Dros 100 o ysbytai sy'n amrywio o ran eu hoedran, eu hadeiladwaith, eu maint a'u swyddogaeth;
- Dros 200 o ganolfannau a chlinigau iechyd;
- 80 o unedau iechyd meddwl ac anableddau dysgu;
- 89 o orsafoedd ambiwlans;
- Dros 160 o eiddo amrywiol ar ffurf swyddfeydd, tai, a warysau storio a dosbarthu.

5. Mae gan y GIG hefyd asedau gan gynnwys seilwaith TG a cherbydau. Fel enghraifft o'r olaf, mae gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ar hyn o bryd 736 o gerbydau yn ei fflyd trafnidiaeth gan gynnwys 227 o gerbydau ymateb mewn argyfwng, 116 o gerbydau ymateb cyflym ac eraill.

**Alinio Strategol**

6. Gan gyfeirio at ddiddordeb y pwyllgor mewn cysylltu rheoli asedau â'r amcanion strategol a pholisi ehangach, *Law yn Llaw at Iechyd* yw'r weledigaeth pum mlynedd ar gyfer y GIG yng Nghymru. Fe'i seilir ar

wasanaethau sylfaenol a chymunedol wrth wraidd cyflawni, ac mae'n hyrwyddo moderneiddio gwasanaethau gan gynnwys gofal a ddarperir yn agosach at y cartref a "chanolfannau rhagoriaeth" arbenigol.

7. Mae rheoli effeithiol ar sylfaen asedau'r GIG yn alluogydd allweddol o ran cyflawni'r weledigaeth hon, gan gynnwys datblygu gwasanaethau sy'n ddiogel, ac yn gynaliadwy, ac o ran cyflawni ymrwymiadau ynghylch gwell mynediad a gwella'r profiad i gleifion.

8. Mae cyrff y GIG wrthi'n datblygu eu cynlluniau ar gyfer newid gwasanaethau, ac mae gwahanol gyrff wedi cyrraedd gwahanol gamau yn y broses ymgysylltu ac ymgynghori. O safbwynt cyfranogiad rhanddeiliaid, bu cyfranogiad ar raddfa na welwyd mo'i thebyg o'r blaen yn y broses ymgysylltu ac ymgynghori. Mae BILl wrthi'n cynnwys cleifion, cyrff partner a staff gyda'r bwriad bod y cynlluniau am newid gwasanaethau'n adlewyrchu'r farn leol.

9. Disgwylir i gyrff y GIG feddu ar gynlluniau rheoli asedau lleol - Strategaethau Ystadau - i gefnogi cyflawni eu cynlluniau gwasanaethau cyffredinol. Dros y cyfnod i ddod, wrth i'r cynlluniau gwasanaethau ddod i'r amlwg, bydd Llywodraeth Cymru'n gofyn bod y rhain yn cael eu hailwerthuso a'u hailalinio i weddu i'r fframwaith strategol sydd â ffocws newydd ac i integreiddio â gwasanaethau, y gweithlu, ansawdd a chynlluniau TG.

**Buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru**

10. Cafwyd buddsoddi cyson a sylweddol yn asedau'r GIG, gyda thros £200 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn y flwyddyn bresennol a thros £1.4 biliwn yn cael ei fuddsoddi dros oes Llywodraeth Cymru.

11. Ar hyn o bryd mae dros 100 o gynlluniau sydd wedi cyrraedd gwahanol gamau yn y broses ddatblygu, cymeradwyo a chyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleusterau iechyd newydd megis ehangu Ysbyty Plant Cymru ac uned iechyd meddwl newydd yng Nglan-rhyd; gwaith ailwampio sylweddol yn Ysbyty Glan Clwyd, Ysbyty'r Tywysog Siarl, Ysbyty Treforys ac Ysbyty Bronglais; ambiwlansys newydd; offer newydd a buddsoddi mewn systemau TG megis Porth Clinigol Cymru, sy'n caniatáu i glinigwyr mewn ysbytai weld gwybodaeth am gleifion mewn un lleoliad ar-lein diogel.

**Arbenigedd Rheoli Asedau**

12. O'r 72, 423 o staff cyfwerth ag amser llawn yr adroddir eu bod wedi'u cyflogi yn GIG Cymru, mae 1007 (1.39%) yn cyflawni swyddogaethau ystadau. Yn ogystal, darperir gwasanaethau proffesiynol a thechnegol gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - Gwasanaethau Cyfleusterau i gyrff unigol. O safbwynt y gwasanaethau a ddarperir mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwasanaethau rheoli eiddo, gan gynnwys ymdrin â holl waith caffael a gwaredu eiddo'r GIG a rheoli prydlesi;

- Cymorth peiriannu ac amgylcheddol arbenigol mewn meysydd megis foltedd uchel, nwyon meddygol, awyru, dadhalogi diogelwch tân, dŵr a gwasanaethau gwastraff;

- Gwasanaethau rheoli adeiladu gan gynnwys caffael cadwyni cyflawni integredig ac ymgynghorwyr cymorth; a

- Cynnal a chadw rhaglen gyhoeddiadau genedlaethol o ganllawiau dylunio a pheiriannu ar arferion gorau ym maes gofal iechyd.

13. Mae Gwasanaethau Cyfleusterau hefyd yn rhoi cyngor a chanllawiau proffesiynol i Lywodraeth Cymru o safbwynt cyflawni newid strategol yn yr ystad iechyd a hefyd wrth sicrhau bod yr ystad bresennol yn cael ei rheoli a'i chynnal a'i chadw i safon uchel. Deellir y bydd Gwasanaethau Cyfleusterau yn darparu tystiolaeth ar wahân i'r Pwyllgor Cyllid ar gyfer yr ymchwiliad.

**Perfformiad Rheoli Asedau**

14. Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - Gwasanaethau Cyfleusterau yn cynhyrchu adroddiad blynyddol, *The NHS in Wales: Estate Condition & Performance,* sy'n ystyried cyflwr a pherfformiad ystad y GIG wedi'i fesur yn erbyn pum dangosydd perfformiad cenedlaethol perfformiad:

- Cyflwr ffisegol;
- Cydymffurfio statudol a diogelwch;
- Addasrwydd gweithredol;
- Defnyddio lle ; a
- Perfformiad ynni.

15. Cafodd y system adrodd ei chyflwyno gan Lywodraeth Cymru yn 2002, er mwyn hybu gwelliant ym mherfformiad ac effeithlonrwydd yr ystad. Dengys adroddiad 2011-12 :

- Ostyngiad pellach yng nghostau cynnal, a chadw ôl-groniadau o £29.6 miliwn i £184.9 miliwn;
- Credir bod 80% o'r ystad yn addas o ran ei weithrediad;
- Mae cyrff yn defnyddio'r lle sydd ar gael yn dda, gyda thros 91% yn cael ei ddefnyddio'n llawn;
- Gostyngiad o 4.9% yn yr ynni a ddefnyddiwyd dros y 12 mis blaenorol.

**Gwella Effeithlonrwydd**

16. Cafwyd cryn gynnydd o ran cyflenwi ystad GIG mwy ystwyth ac effeithlon, gyda chanolbwynt ar waredu eiddo sydd mewn cyflwr ffisegol arbennig o wael, sy'n methu â chydymffurfio â'r gofynion statudol ac sy'n gryn her o safbwynt cyflawni gwasanaethau clinigol modern. Yn y flwyddyn bresennol, mae dros £5 miliwn wedi'i gynhyrchu yn sgil gwerthu 17 o eiddo dros ben yn y GIG eiddo, gyda'r elw ar gael wedyn i'w ail-fuddsoddi. Dros y deng mlynedd

diwethaf, mae'r GIG wedi mynd ati i waredu dros 242 hectar o dir a 210,000 metr sgwâr o adeiladau gyda gwerth gwaredu o dros £102 miliwn.

17. Mae perfformiad Byrddau/Ymddiriedolaethau iechyd wedi gwella yn sylweddol mewn perthynas â pherfformiad ynni. Fel y nodwyd bu gostyngiad o 4.9% yn yr ynni net a ddefnyddiwyd yn y GIG yng Nghymru yn 2011/12, a hynny oherwydd ymrwymiad uchel i effeithlonrwydd ynni mewn BILl unigol ac Ymddiriedolaethau a'r defnydd parhaus o CHPs.

**Gostwng Carbon**

18. Mae nifer o fesurau a anelir at leihau ôl troed carbon y GIG yng Nghymru eisoes wedi'u rhoi ar waith. Mae'r cynnydd hyd yn hyn wedi'i gyflawni trwy nifer o gynlluniau cenedlaethol a lleol wedi'u targedu, i gefnogi *Environmental Management Policy for the NHS Estate in Wales*, sy'n bodoli ers 2002.

19. O safbwynt y gwaith presennol a wneir gan gyrff y GIG i leihau allyriadau carbon i gyfrannu at darged cyffredinol Llywodraeth Cymru o ostyngiad o 3% y flwyddyn mewn meysydd o gymhwysedd datganoledig, mae cynnydd nodedig yn cael ei wneud. Mae pob BILl a phob ymddiriedolaeth wrthi'n sefydlu System Rheoli Amgylcheddol (EMS) a ardystir i safon ryngwladol ISO 14001. Mae'r dull hwn yn golygu y daw lleihau carbon yn rhan o ffabrig gweithredol y GIG. Mae'r terfynau amser presennol ar gyfer cyflawni ardystiad ISO 14001 fel a ganlyn:

- Safle pob ysbyty mawr erbyn Rhagfyr 2012;
- 50% o'r ystad ym mhob BILl ac ymddiriedolaeth erbyn Rhagfyr 2013;
- 100% o'r ystad erbyn Rhagfyr 2014.

20. Datblygwyd arf rheoli perfformiad Carbon Diagnostig (CarDio) er mwyn caniatáu i gyrff y GIG gyfrif eu hallyriadau yn flynyddol. Dyluniwyd hyn i ddarparu dull syml a chyson ledled GIG Cymru, gan ganiatáu ar gyfer meincnodi a chymariaethau dros y blynyddoedd i ddod. Gwybodaeth 2010-11 fydd y llinell sylfaen y gellir monitro cynnydd yn ei herbyn.

21. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob BILl ac ymddiriedolaeth gwblhau arf Gostwng Allyriadau GIG Cymru erbyn diwedd Mawrth 2013. Bydd hyn yn arwain at raglen o gynlluniau gostwng allyriadau ar gyfer pob un o gyrff y GIG.

**Cydweithredu Rheoli Asedau**

22. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i hybu'r angen am gydweithredu pellach gyda chyrff eraill y sector cyhoeddus i wella rheoli a defnyddio tir ac adeiladau, ac mae'n parhau i weithio gyda'r GIG yn hyn o beth.

23. Mae papur tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, a gafodd ei gymeradwyo gan y Gweinidog Cyllid eisoes wedi darparu tystiolaeth am rôl a chyflawniadau'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol (NAWG), sy'n cynnwys

cynrychiolwyr y GIG fel rhan o'i aelodaeth. Un o gyflawniadau allweddol NAWG yw sefydlu Cronfa Ddata Eiddo'r Sector Cyhoeddus trwy Gymru gyfan (ePIMS). O'r 14, 815 o gofnodion y sector cyhoeddus hyd yn hyn, mae rhyw 869 (5%) yn cyfeirio at GIG Cymru. Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - Gwasanaethau Cyfleusterau ynn defnyddio cronfa ddata e-PIMS fel system rheoli eiddo ar draws GIG Cymru trwy:

- Gynnal a chadw cofrestr o bob un o fuddiannau rhydd-ddaliad a lesddaliadol GIG Cymru a data cysylltiedig;
- Storio copïau electronig o ddogfennau teitl, prydlesi, cynlluniau, etc;
- Cynhyrchu Adroddiadau Cryno cyfoes ar gyfer BILL ac ymddiriedolaethau i'w galluogi i reoli eu buddiannau eiddo lesddaliadol yn fwy effeithiol;
- Cael hysbysiadau e-bost am Ddigwyddiadau Prydlesi megis cymalau terfynu a phrydlesi'n dod i ben er mwyn sicrhau na chaiff terfynau amser pwysig eu colli;
- Hysbysu cyrff cyhoeddus eraill trwy'r gronfa ddata o asedau eiddo dros ben GIG Cymru; a
- Chwilio'r gronfa ddata am le/tir gwag yn y sector cyhoeddus pan fo ar un o gyrff y GIG angen llety / tir ychwanegol.

24. O safbwynt hybu'r agenda ar gyfer rheoli asedau yn gydweithredol, lle bo cyrff yn cyd-ddatblygu, cyd-leoli a rhannu asedau i ddarparu gwasanaethau mwy cydlynol a hygyrch, mae gan y GIG hanes da o gyflawni:

- Mae Canolfan Adnoddau Port Talbot yn cynnwys 4 practis Ymarferwyr Cyffredinol, gwasanaethau deintyddol a chymunedol, gwasanaethau cymunedol, gwasanaethau awdurdodau lleol a'r trydydd sector. Mae'r gwasanaethau cymunedol yn cynnwys ymwelwyr iechyd, gwasanaethau nyrsio ardal, podiatreg, ffisiotherapi a thimau ymateb cynnar.

- Mae Parc Iechyd Kier Hardie a agorwyd yn ddiweddar yn cyfuno gwasanaethau iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol o dan un to. Mae'n cynnwys practisau Ymarferwyr Cyffredinol, yr uned ddeintyddol gymunedol, gofal iechyd plant a gofal iechyd meddwl ac ystod o therapïau sy'n dod â gwasanaethau allan o'r ysbyty ac yn agosach at gartref y cleifion. Mae cynigion hefyd i ymestyn y Parc i gynnwys cyfleusterau hyfforddiant addysg feddygol.

- Bydd Prosiect Cylch Caron yn Nhregaron yn creu cyfleuster adeiladu newydd i greu cyfuniad hyblyg o iechyd a gofal cymdeithasol a thai byrdymor a hirdymor.

25. A throi at drosglwyddo a gwaredu asedau, mae GIG Cymru'n cyfrannu yn egnïol at Brotocol Tai Fforddiadwy Llywodraeth Cymru gyda rhyw £3.550 miliwn o eiddo'n cael ei werthu hyd yn hyn i hwyluso darparu tai fforddiadwy. Mae'r rhain yn cynnwys:

| Blwyddyn Ariannol | Disgrifiad o'r safle a werthwyd | Disgrifiad o dai fforddiadwy a alluogwyd trwy'r Protocol Tai Fforddiadwy |
|---|---|---|
| **2009/10** | Canolfan Iechyd Clydach, Abertawe | Adeiladwyd 14 o Unedau : 11 fflat un ystafell wely a 3 fflat dwy ystafell wely yn cael eu meddiannu Mehefin 2012 |
| | Clinig Sandfields, Port Talbot | 8 o Dai – pob un â dwy ystafell wely, yn cael eu meddiannu Ebrill 2012 |
| **2011/12** | Ysbyty Aberbargod | 16 o unedau fforddiadwy yn cael eu cwblhau ar ddiwedd 2012 |
| | Ysbyty'r Glowyr, Caerffili | Adeiladu 60 o unedau: 20 uned ecwiti a rennir, 20 uned rhent canolradd ac 20 rhent cymdeithasol. |
| **2012/13** | Ysbyty Blaenau | Cafodd ganiatâd cynllunio yn Hydref 2012 i ddatblygu 21 o fyngalos fforddiadwy |

## Cyfraniad y Claf at Reoli Asedau

26. Bob blwyddyn mae Cynghorau Iechyd Cymuned yn ymweld â phob ysbyty yn ei ardal fel rhan o'r Rhaglen Amgylchedd Cleifion Ysbyty (HPE). Y pum man yr ymwelir â hwy yn ystod y rhaglen yw'r ardal allanol, mynedfeydd a'r brif dderbynfa, mannau cyffredin, wardiau ac adrannau. Mae'r rhaglen HPE yn canolbwyntio ar y materion ehangach ynghylch cleifion nad ydynt yn dod o dan safonau na fframweithiau penodol. Y nod yw gwella pethau o fewn gwaith rheoli yn hytrach na nodi gofynion a fyddai'n gofyn am fuddsoddiad.